CYNORTHWY-YDD PERSONOL I'R CADEIRYDD AC YSGRIFENNYDD YR AWDURDOD

Cyflwyno S4C

Awdurdod darlledu cyhoeddus yw S4C. Sefydlwyd S4C gan Ddeddfau Darlledu 1980/1981 i ddarparu gwasanaeth teledu Cymraeg a aeth ar yr awyr gyntaf ym mis Tachwedd 1982. Darlledwr sy'n comisiynu cynnwys o gwmnïau cynhyrchu yw S4C, yn hytrach nag un sy'n cynhyrchu rhaglenni. Yn ogystal, mae dyletswydd statudol ar BBC Cymru i ddarparu oddeutu 10 awr o raglenni yr wythnos i'w darlledu ar wasanaethau S4C. Ei amcan corfforaethol yw darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr, o safon uchel, sy'n adlewyrchu a chyfoethogi bywyd yng Nghymru. Mae ganddi staff o 166 sydd wedi eu lleoli yng Nghaerdydd yn bennaf.

Mae S4C yn darlledu'r gwasanaethau canlynol ar hyn o bryd:

Enw'r gwasanaeth	**Natur y Gwasanaeth**	**Platfform**	**Mynediad ac Ôl Troed**
S4C	O leiaf 37 awr o raglenni Cymraeg yr wythnos. Rhaglenni Cymraeg yn ystod oriau brig yn bennaf. Rhaglenni Channel 4 ar adegau eraill.	Analog	Botwm 4 yng Nghymru
S4C digidol	O leiaf 100 awr o raglenni Cymraeg yr wythnos.	Daearol Digidol (Freeview gan gynnwys gwasanaethau rhyngweithiol a'r botwm coch) Lloeren Ddigidol (gan gynnwys gwasanaethau rhyngweithiol a'r botwm coch) Cebl Digidol Freesat	4 yng Nghymru 104 yng Nghymru ac 134 yng ngweddill y DU 194 yng Nghymru 104 yng Nghymru ac 120 yng ngweddill y DU

Enw'r gwasanaeth	Natur y Gwasanaeth	Platfform	Mynediad ac Ôl Troed
www.s4c.co.uk/clic	Bu modd gwylio rhaglenni Cymraeg er mis Chwefror 2006. Gweddarllediad cydamserol o wasanaeth S4C digidol. Ffenestr 35 diwrnod ar gyfer gwylio ar alw. Ffrydio ychwanegol o ddigwyddiadau pwysig yng Nghymru.	Ar-lein	DU (ac eithrio pan gaiff ei gyfyngu gan hawliau). Ar draws y byd (ac eithrio lle y caiff ei gyfyngu gan hawliau).
Freewire	Ffrydio S4C digidol trwy gyfrwng cytundeb gydag INUK.	IPTV	Ar gael ar wasanaeth Freewire ar gyfer campysau prifysgolion ar draws y DU.
s4c.co.uk	Safleoedd chwaraeon, cerddoriaeth, drama, ffeithiol, digwyddiadau byw ac adloniant. Mynediad i archif. Manylion ynghylch yr amserlen. Gwybodaeth gorfforaethol.	Ar-lein	Ar gael ar draws y byd
www.dysguars4c.co.uk	Gwasanaeth pwrpasol ar gyfer dysgwyr Cymraeg gan ddefnyddio rhaglenni S4C fel adnodd dysgu.	Ar-lein	Ar gael ar draws y byd

Enw'r gwasanaeth	Natur y Gwasanaeth	Platfform	Mynediad ac Ôl Troed
Ffermio.tv bandit247.com uned5.co.uk (enghreifftiau)	Nifer o wefannau ychwanegol sy'n cael eu creu gan gyflenwyr annibynnol ac sy'n mynd y tu hwnt i ofynion rhaglenni teledu.	Ar-lein	Ar gael ar draws y byd
s4c.co.uk/cynhyrchu	Cyfleuster cynhwysfawr sy'n cynnig gwybodaeth i'r sector cynhyrchu annibynnol.	Ar-lein	Ar gael ar draws y byd

Mae'r gofynion statudol ar S4C, ei gwasanaethau a'i gweithgareddau wedi'u gosod allan yn bennaf yn y Ddeddf Darlledu 1990 (fel y newidir gan y Ddeddf Darlledu 1996) a'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Manylion cefndir am S4C

Mae S4C yn cael ei ariannu yn bennaf o grant gan Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghyd â chyllid sy'n cael ei greu gan weithgareddau ei his-gwmnïau masnachol. Cyfeiriwch at Adroddiad Blynyddol S4C am fwy o fanylion. http://www.s4c.co.uk/abouts4c/annualreport/c_index.shtml.

Ers Deddf Gyfathrebiadau 2003, mae cynnwys rhaglenni S4C yn cael ei reoleiddio yn bennaf gan Ofcom (gan gynnwys cydymffurfiaeth rhaglenni'r gwasanaeth, cwotâu ar gyfer cynnyrch rhanbarthol ac annibynnol, Côd Ymarfer a Thelerau Masnach ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol).

Mae Awdurdod S4C yn awdurdod darlledu annibynnol ac yn gyfrifol am bolisi strategol y corff. Mae'r Awdurdod yn gorff annibynnol yn gyfrifol am atebolrwydd i'r cyhoedd am wariant arian cyhoeddus.

O ddydd i ddydd rheolir S4C gan y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Mae 8 aelod ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr sydd yn cynrychioli'r 6 prif Gyfarwyddiaeth (Directorate) o fewn S4C: Comisiynu, Darlledu a Dosbarthu, Polisi Corfforaethol a Masnachol, Cyllid ac Adnoddau Dynol, Materion Busnes a Chyfathrebu.

Am fwy o fanylion ar lwybr strategol S4C gweler ein Strategaeth Cynnwys 2009-2013, http://www.s4c.co.uk/abouts4c/authority/pdf/strategaeth-cynnwys-s4c-2009-2013.pdf sydd yn amlinellu prif nodweddion ac amcanion y gwasanaethau a'n nod o gyrraedd rhagoriaeth greadigol ym mhob agwedd o'n gwaith.

Cyfeirir hefyd at y Cynllun Corfforaethol sydd yn gosod amcanion a thargedau blynyddol. http://www.s4c.co.uk/abouts4c/authority/pdf/Cynllun-Corfforaethol-S4C-2009.pdf

Lleoliad

Lleolir y swydd hon yn swyddfeydd S4C ym Mharc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus deithio i le bynnag y bydd S4C yn rhesymol yn ei orchymyn.

Y swydd

Rydym yn chwilio am berson i ddarparu cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol gynhwysfawr o safon uchel i Gadeirydd S4C, yr aelodau ac Ysgrifennydd yr Awdurdod. Dyma gyfle arbennig i unigolyn profiadol a medrus i weithio'n agos gydag Awdurdod S4C.

Byddwch yn unigolyn sydd eisoes wedi cael profiad sylweddol o weithio i uwch reolwyr, ac sydd yn mwynhau cyfrifoldeb. Rhaid meddu'r ddawn i weithio'n hyderus ar eich pen eich hun ac o dan bwysau. Dylai fod gennych sgiliau llafar ac ysgrifenedig o'r radd flaenaf, ynghyd â sgiliau trefnu rhagorol a chywirdeb yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dylech hefyd fod yn gyfarwydd ag ymdrin â materion cyfrinachol a sensitif mewn modd trefnus a chwbl ddibynadwy. Byddai ymwybyddiaeth o'r maes darlledu a rheoleiddio yn fantais.

Bydd y prif gyfrifoldebau yn cynnwys:-

- Darparu cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol i Gadeirydd S4C, aelodau'r awdurdod a'r Ysgrifennydd.
- Paratoi, cydlynu a chylchredeg agendâu, mynychu a chynorthwyo i gymryd cofnodion cyfarfodydd misol Awdurdod S4C.
- Paratoi, cydlynu a chylchredeg agendâu, mynychu a chynorthwyo i gymryd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth, y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth a'r Pwyllgor Cynnwys.
- Ysgrifennu bwletin misol Awdurdod S4C, i'w gyhoeddi ar y safle we.
- Ymgymryd â gwaith polisi yn ôl gofynion yr Ysgrifennydd.
- Rheoli beunyddiol cyllideb benodol yr Awdurdod a threuliau'r Aelodau.

Manylion Eraill

CYTUNDEB: Cynigir cytundeb 2 flynedd i gychwyn.

CYFLOG: Yn unol â phrofiad.

***CYFNOD PRAWF*:** Mae gofyn i bob un a benodir gan S4C fod ar brawf am gyfnod o chwe mis er mwyn i'r cyflogwr gael adolygu perfformiad, ymddygiad, a phresenoldeb yn y gwaith**.** Yn ystod y cyfnod hwn diogelir hawl S4C i derfynu'r gyflogaeth ar unrhyw adeg drwy roi wythnos o rybudd.

ORIAU GWAITH: 9.00am i 5.15pm o Ddydd Llun i Ddydd Iau ac o 9.00am i 4.45pm ar Ddydd Gwener ond oherwydd natur y swydd disgwylir peth hyblygrwydd ar adegau. Ceidw S4C yr hawl i ofyn i chi weithio oriau ychwanegol yn ôl y gofyn.

GWYLIAU*:* 26 diwrnod y flwyddyn yn ogystal â Gwyliau Banc arferol.

***IECHYD*:** Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gael archwiliad meddygol gan feddyg S4C ar ddechrau'r cyfnod cyflogaeth**.**

Budd-daliadau Eraill

⇒ Ar ddiwedd tri mis o gyflogaeth, byddai hawl gennych i ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os fyddech yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, byddai S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

⇒ Byddech yn cael eich cynnwys yn "Cynllun Yswiriant Grwp S4C – Marwolaeth Mewn Swydd". Telir unrhyw gostau gan S4C.

⇒ Mae S4C yn cynnig cymorth tuag at warchod plant hyd at oed dechrau ysgol os nad ydych eisoes yn derbyn cymorth o'r fath. Ceir lwfans dyddiol o £10 y dydd am bob plentyn.

Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn 5.00pm, Dydd Iau 18 Chwefror 2010 at:-

Claire Thomas
Swyddog Adnoddau Dynol
S4C
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Mae S4C yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu llawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Mae S4C yn croesawu ac yn cymell ceisiadau am swyddi oddi wrth grwpiau allai fod wedi eu tangynrychioli gan gynnwys merched, pobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Gweithredir egwyddorion cystadleuaeth agored a theg a phenderfynir ar benodiadau ar sail teilyngdod.